**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

# Cyfiawnder Ieuenctid: Profiad plant Cymru mewn Sefydliadau Diogel
Crynodeb o'r Adroddiad

Mai 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol
**www.cynulliadcymru.org**

Mae rhagor o gopïau print o'r ddogfen hon ar gael drwy gysylltu â'r:

Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8149
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: culture.committee@wales.gsi.gov.uk

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

Cyfiawnder Ieuenctid: Profiad plant Cymru mewn Sefydliadau Diogel
Crynodeb o'r Adroddiad

Mai 2010

**Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant**

Prif swyddogaeth pwyllgorau craffu yw archwilio, o fewn eu cylch gorchwyl, wariant, gweinyddiaeth a pholisïau'r llywodraeth a chyrff cyhoeddus cysylltiedig.

Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys:

–Tai;
–Diogelwch Cymunedol;
–Cynhwysiant Cymunedol gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf a'r Cynllun Gofodol;
–Y Gymraeg, chwaraeon a diwylliant.

**Pwerau**

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26.6.07 yn un o bwyllgorau craffu'r Cynulliad. Rhestrir ei bwerau yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn enwedig yn SO 12. Mae'r rhain ar gael yn **www.assemblywales.org**

**Aelodau'r Pwyllgor**



**Sandy Mewies (Cadeirydd)**
Delyn
Llafur



**Bethan Jenkins**
Gorllewin De Cymru
Plaid Cymru



**Mohammad Asghar**
Dwyrain De Cymru
Plaid Geidwadol Cymru



**Dai Lloyd**
Gorllewin De Cymru
Plaid Cymru



**Eleanor Burnham**
Gogledd Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Lynne Neagle**
Torfaen
Llafur



**Alun Davies**
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Llafur



**Joyce Watson**
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Llafur



**Mark Isherwood**
Gogledd Cymru
Plaid Geidwadol Cymru

# Cynnwys


**Rhagair y Cadeirydd .......... 5**

**Cyflwyniad .......... 6**

Pwy ydym ni? .......... 6

**Pam wnaethom ni gynnal ymchwiliad i Gyfiawnder Ieuenctid a phrofiad plant Cymru mewn Sefydliadau Diogel? .......... 6**

Beth yw sefydliad diogel, a pha ddewisiadau eraill sydd ar gael i osgoi anfon plant a phobl ifanc i'r ddalfa? .......... 7

**Beth wnaethom ni i ddysgu am Gyfiawnder Ieuenctid, a phrofiadau plant Cymru mewn Sefydliadau Diogel? .......... 9**

**Beth wnaethom ni ei ddarganfod? .......... 10**

Datganoli sefydliadau diogel .......... 10

Atal plant a phobl ifanc rhag troseddu .......... 10

Dewis a ddylid anfon plant sy'n troseddu'n ddifrifol i sefydliadau diogel, ynteu a ddylid defnyddio dewisiadau eraill i osgoi eu hanfon i'r ddalfa .......... 11

Gwella profiadau plant Cymru mewn sefydliadau diogel .......... 12

Gadael sefydliadau diogel .......... 14

**Argymhellion y Pwyllgor .......... 15**

**Termau a ddefnyddiwr yn yr adroddiad hwn .......... 20**

## Rhagair y Cadeirydd

Helo!

Diolch am ddarllen y crynodeb hwn o adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar "Gyfiawnder Ieuenctid: Profiadau plant Cymru mewn Sefydliadau Diogel."

NI fyddem wedi medru cynhyrchu'r adroddiad hwn heb gymorth llawer o bobl, gan gynnwys plant a phobl ifanc a oedd wedi byw mewn sefydliadau diogel. Hoffem ddiolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi'n helpu gyda'n gwaith.

Yn ein hadroddiad, gwnaethom 28 o argymhellion i geisio gwella cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru, a phrofiadau plant Cymru mewn sefydliadau diogel. Gallwch ddarllen rhestr o'r argymhellion hyn ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Credwn mai prif swyddogaeth y system cyfiawnder ieuenctid yw atal plant a phobl ifanc rhag troseddu yn y dyfodol, ac i wneud hynny, mae angen i ni gydnabod y dylid trin troseddwyr ifanc fel plant yn gyntaf ac fel troseddwyr wedyn.

Bydd Llywodraeth Cymru[1] yn penderfynu a yw am dderbyn yr argymhellion hyn ym mis Ebrill 2010.

Mae ein hadroddiad, ac ymateb Llywodraeth Cymru iddo, ar ein tudalennau ar y we: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-ccc-home.htm. Bydd copi o'n hadroddiad, ac ymateb Llywodraeth Cymru iddo, hefyd yn cael ei anfon i sefydliadau diogel yng Nghymru a Lloegr.

[1] Mae Llywodraeth Cymru yn wahanol i Lywodraeth y DU. Mae gan Lywodraeth Cymru y pŵer i ysgrifennu cyfreithiau a phenderfynu ar yr hyn a gaiff ei wneud yng Nghymru ynglŷn â rhai materion (er enghraifft - iechyd, addysg a'r amgylchedd). Mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, a Gweinidogion Cymru, ac mae wedi'i lleoli yng Nghymru. Fodd bynnag, Llywodraeth y DU (sy'n cynnwys y Prif Weinidog, Gordon Brown, a Gweinidogion y DU) sy'n parhau i fod â'r pŵer i benderfynu ar yr hyn y dylid ei wneud yng Nghymru ynglŷn â materion eraill (faint o arian i'w wario ar 'Amddiffyn' er enghraifft).

# Cyflwyniad

## Pwy ydym ni?

1. Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

2. Grŵp o wleidyddion yw'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant a sefydlwyd i ofyn cwestiynau anodd i Lywodraeth Cymru am yr hyn y mae'n ei wneud i wella Diogelwch Cymunedol, Cynhwysiant Cymunedol[2], Tai, y Gymraeg, Chwaraeon a Diwylliant.

3. Weithiau, byddwn yn gwneud hyn drwy gynnal ymchwiliad i faes penodol. Mae hyn yn golygu siarad â llawer o bobl i'n helpu ni i ddysgu am y maes, ac yna cyflwyno'u syniadau i Lywodraeth Cymru, er mwyn gofyn cwestiynau anodd am y pwnc, ac awgrymu sut y gallai wella'r hyn y mae'n ei wneud.

4. Mae ein hadroddiad 'Cyfiawnder Ieuenctid: Profiad plant Cymru mewn Sefydliadau Diogel' yn disgrifio un o'r ymchwiliadau hyn.

## Pam wnaethom ni gynnal ymchwiliad i Gyfiawnder Ieuenctid a phrofiad plant Cymru mewn Sefydliadau Diogel?

5. Er mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yn Llundain yw cyfiawnder ieuenctid, mae Llywodraeth Cymru yn rheoli nifer o faterion yng Nghymru sy'n effeithio ar gyfiawnder ieuenctid, fel diogelwch cymunedol, iechyd ad addysg. Ym mis Gorffennaf 2004, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru ddogfen, sef *Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan,* a oedd yn dweud beth y byddai'n ei wneud i atal plant a phobl ifanc rhag troseddu.

6. Cyn penderfynu cynnal yr ymchwiliad hwn, buom yn siarad â gwahanol bobl[3] a oedd yn hoffi'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn

---

[2] Nod 'Cynhwysiant Cymunedol' yw gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu derbyn yn llawn gan bobl eraill yn eu cymunedau, a'u bod yn gallu defnyddio holl adnoddau'r gymuned (fel llyfrgelloedd, parciau, etc) a'u bod yn gallu cymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd y gymuned.

[3] Gan gynnwys: Rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid Cymru, Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru, Rhwydwaith Gwirfoddol Cyfiawnder Cymunedol Cymru –

ceisio atal plant a phobl ifanc rhag troseddu yn y lle cyntaf ac, felly, yn ceisio atal plant a phobl ifanc rhag cael eu hanfon i 'sefydliadau diogel'.

7. Clywsom hefyd am y gwaith roedd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynnig dulliau eraill o ymdrin â throseddwyr ifanc i osgoi eu hanfon i'r ddalfa.

8. Fodd bynnag, roeddynt yn pryderu nad oedd Llywodraeth Cymru yn rhoi digon o sylw i droseddwyr dan 18 oed a throseddwyr ifanc rhwng 18 a 20 oed sy'n cael eu hanfon i sefydliadau diogel.

## Beth yw sefydliad diogel, a pha ddewisiadau eraill sydd ar gael yn lle anfon plant a phobl ifanc i'r ddalfa?

9. Mae sefydliadau diogel yn cynnwys yr holl leoedd gwahanol y caiff plant a phobl ifanc eu hanfon iddynt a'u cadw dan glo i'w cosbi am droseddau difrifol.

10. Os yw plant neu bobl ifanc yn troseddu'n ddifrifol, bydd llys ieuenctid yn penderfynu ar natur eu cosb.

11. Nid yw hyn yn golygu y byddant o reidrwydd yn mynd i sefydliad diogel: yn amlach na pheidio, dewisir dull arall yn lle'u hanfon i'r ddalfa.

12. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd angen i'r plant ymuno â rhaglen atal troseddu a chymryd rhan mewn gweithgareddau penodol gan eu cadw dan oruchwyliaeth pan nad ydynt yn yr ysgol. Y bwriad yw eu cadw oddi wrth gyffuriau, a rhoi digon iddynt ei wneud er mwyn ei gwneud yn llai tebygol y byddant yn troseddu eto.

13. Neu mae'n bosibl iddynt hwy (ac weithiau eu rhieni) gyfarfod â'r rhai a ddioddefodd oherwydd eu trosedd a phenderfynu sut gellid gwneud iawn am y difrod a wnaed. Cyfiawnder adfer yw hyn.

14. Dylai'r gosb fod yn addas i'r plentyn neu'r person ifanc sydd wedi troseddu; ni ddylai troseddau arbennig yn arwain yn awtomatig at gosb arbennig.

---

Catch 22, Comisiynydd Plant Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Dr. Kevin Haines, yr Athro Howard Williamson a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

15.Weithiau, fodd bynnag, bydd llys ieuenctid yn penderfynu bod yn rhaid i blentyn neu berson ifanc fynd i sefydliad diogel. Fel arfer, bydd hyn yn digwydd oherwydd na chawsant eu cadw yn y ddalfa am droseddu yn y gorffennol, a'u bod yn parhau i droseddu.

16.Mae tri math o sefydliad diogel i blentyn neu berson ifanc sydd wedi troseddu'n ddifrifol, sef:

- Canolfannau Hyfforddi Diogel (Canolfannau);
- Cartrefi Diogel i Blant (Cartrefi);
- Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (Sefydliadau).

17.**Canolfannau Hyfforddi Diogel (Canolfannau)** – i blant a phobl ifanc hyd at 17 oed. Maent yn cynnig amgylchedd diogel lle cânt eu dysgu a'u hadsefydlu. Maent yn wahanol i Sefydliadau Troseddwyr Ifanc gan fod llai o blant a phobl ifanc i bob aelod o staff ofalu amdanynt, ac maent yn unedau llai. Mae pedair canolfan yn Lloegr. Nid oes canolfan yng Nghymru ar hyn o bryd.

18.**Cartrefi Diogel i Blant (Cartrefi)** - cânt eu rhedeg gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol (h.y. y Cyngor) i ddiwallu anghenion unigol pobl ifanc. Mae'r gymhareb rhwng y staff a'r plant a'r bobl ifanc yn uchel ac, fel arfer, mae'r unedau'n fach, gan amrywio o 6 i 40 o welyau.  Cartrefi i blant a phobl ifanc rhwng 12 a 14 a hefyd merched hyd at 16 oed yw'r rhain, ynghyd â bechgyn 15-16 oed y penderfynwyd eu bod yn 'agored i niwed' yn dilyn asesiad (sy'n golygu bod angen cymorth ychwanegol arnynt). Mae un cartref plant diogel yng Nghymru, yn Hillside yng Nghastell-nedd.

19.**Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (Sefydliadau)** - i blant a phobl ifanc rhwng 15 a 21 oed. Caiff pobl ifanc 15-17 oed eu cadw'n gwbl ar wahân i bobl ifanc 18-21 oed. Un Sefydliad Troseddwyr Ifanc sydd yng Nghymru, sef y Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

## Beth wnaethom ni i ddysgu am Gyfiawnder Ieuenctid, a phrofiad plant Cymru mewn Sefydliadau Diogel?

20. Ar ddechrau'n hymchwiliad, aethom ati i ysgrifennu at lawer o wahanol bobl, i'w holi am yr hyn roedd Llywodraeth Cymru yn ei wneud am Gyfiawnder Ieuenctid, ac am brofiadau plant Cymru mewn sefydliadau diogel.

21. Yna, cafodd llawer o wahanol bobl a chyrff wahoddiad i siarad â ni yn ein cyfarfodydd, rhwng 26 Mawrth 2009 a 4 Tachwedd 2009.

22. Hefyd, buom yn ymweld â llawer o Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, Canolfannau Hyfforddi Diogel a Chartrefi Diogel i Blant yng Nghymru a Lloegr, lle'r oedd plant a phobl ifanc o Gymru yn cael eu hanfon. Roedd hyn yn golygu y bu modd i ni siarad â'r plant a oedd mewn sefydliad diogel, a'r staff a oedd yn goflau amdanynt.

23. Drwy hyn, cawsom siarad â llawer o wahanol bobl, a gofyn iddynt am eu syniadau ynglŷn â gwella profiadau plant Cymru mewn sefydliadau diogel. Roedd y bobl hyn yn cynnwys:

- Cynrychiolwyr y Llywodraeth, fel Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, a Gweinidog Gwladol Llywodraeth y DU dros y Weinyddiaeth Gyfiawnder;
- Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr;
- cynrychiolwyr llywodraeth leol;
- Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr;
- arbenigwyr academaidd (e.e. yr Athro Williamson, Prifysgol Morgannwg);
- sylwedyddion gwybodus (e.e. Comisiynydd Plant Cymru);
- cynrychiolwyr ynadon;
- asiantaethau arolygu (e.e. Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru);
- staff sy'n gweithio mewn sefydliadau diogel;
- plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn sefydliad diogel.

## Beth wnaethom ni ei ddarganfod?

24. Ar ôl ein hymchwiliad deg mis, gwnaethom 28 o argymhellion i helpu i wella'r system cyfiawnder ieuenctid. Gallwch ddarllen rhestr o'r argymhellion hyn ar ddiwedd y crynodeb hwn.

### Gwneud Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am sefydliadau diogel

25. Dywedodd llawer o bobl wrthym eu bod yn credu bod Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o gymorth na Llywodraeth y DU i blant a phobl ifanc yn y system Cyfiawnder Ieuenctid. Dywedodd nifer o bobl y byddai'n well felly i Lywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am sefydliadau diogel, a bod Llywodraeth y DU yn rhoi arian iddi wneud hynny h.y. 'datganoli' sefydliadau diogel.

26. Un o'n hargymhellion felly, oedd y dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Lywodraeth y DU ddatganoli cyfrifoldeb iddi dros sefydliadau diogel i blant a phobl ifanc.

### Atal plant a phobl ifanc rhan troseddu

27. Buom yn siarad â phobl a oedd yn credu bod Llywodraeth Cymru yn gwneud llawer o waith da i atal plant a phobl ifanc rhag troseddu. Roedd ganddynt hefyd syniadau ynglyn â sut y gallai wneud hyn yn well:

- defnyddio dulliau cyfannol, gan gynnwys yr holl deulu, yn y system cyfiawnder ieuenctid: fel arfer, bydd asiantaethau eisoes yn ymwneud â theulu ehangach y plentyn (e.e. Ymwelwyr Iechyd, swyddogion y Gwasanaeth Prawf, Cynghorwyr Cyffuriau etc) a allai helpu i nodi pa blant a phobl ifanc sydd mewn perygl mawr o droseddu a'u helpu, drwy hynny, i osgoi mynd i helynt;
- gwella'r modd y bydd sefydliadau gwahanol yn rhannu gwybodaeth, gan gynnwys gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, gwasanaethau tai, iechyd a phlant;
- gwneud rhagor o waith gyda phlant troseddwyr gan fod ymchwil yn dangos bod perygl mawr iddynt hwythau droseddu. Gallai Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc wneud rhagor i flaenoriaethu plant troseddwyr yn eu cynlluniau.

28. Gan hynny, rydym wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried beth y gallai ei wneud yn well i atal plant a phobl ifanc rhag troseddu.

## Penderfynu a ddylai plant sy'n troseddu'n ddifrifol fynd i sefydliadau diogel ynteu a ddylid defnyddio dewisiadau eraill yn lle'u hanfon i'r ddalfa?

29. Roedd y rhan fwyaf o bobl y buom yn siarad â nhw'n credu mai swyddogaeth bwysicaf y system cyfiawnder ieuenctid oedd atal plant a phobl ifanc rhag troseddu eto. Credai llawer o bobl nad oedd sefydliadau diogel yn llwyddo i wneud hyn.

30. Oherwydd hyn, roedd llawer o bobl y buom yn siarad â nhw yn pryderu bod gormod o blant a phobl ifanc yn cael eu hanfon i sefydliadau diogel yn hytrach na defnyddio dewisiadau eraill yn lle'u hanfon i'r ddalfa. O ran cadw plant a phobl ifanc yn y ddalfa, mae'r gyfradd yng Nghymru ymhlith yr uchaf yn Ewrop. Mae ymchwil yn dangos, fodd bynnag, mai dim ond 31 y cant o blant sy'n cael eu hanfon i'r ddalfa sydd wedi'u cyhuddo neu sydd wedi'u cael yn euog o gyflawni troseddau treisgar neu rywiol.

31. Rydym yn credu mai un rheswm dros hyn yw ei bod yn hawdd iawn gwneud plant yn ysgymun a'u labelu'n hwdis pan fydd troseddau'n cael sylw mawr gan y cyfryngau, ac mae pobl yn awyddus i'w cadw dan glo a thaflu'r allwedd ymaith.

32. Os ydym am atal plant a phobl ifanc rhag troseddu eto, fodd bynnag, credwn fod angen sylweddoli na fydd yn helpu neb yn y pen draw i anwybyddu'r rhesymau sydd wrth wraidd troseddau'r bobl ifanc hyn. Gwyddom y canlynol:

- mae 90 y cant o blant mewn sefydliadau diogel wedi cael eu hudo i gamddefnyddio cyffuriau;
- mae gan 60 y cant anawsterau iaith, lleferydd a chyfathrebu;
- mae gan 43 y cant anghenion emosiynol a meddyliol;
- mae 33 y cant o ferched mewn sefydliad diogel wedi cael eu cam-drin yn gorfforol neu'n rhywiol;
- mae 37 y cant wedi treulio amser yng ngofal y gwasanaethau cymdeithasol oherwydd problemau gartref.

33. Gan hynny, rydym wedi argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellid herio'r darlun y mae'r cyfryngau'n ei gyflwyno o blant a phobl ifanc a chanfyddiad y cyhoedd ohonynt.

34. Rydym hefyd wedi argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phobl i:

- adolygu'r modd y mae plant a phobl ifanc sy'n troseddu'n ddifrifol yn cael eu cosbi drwy eu cadw yn y ddalfa;
- ystyried beth fyddai'r effeithiau posibl pe bai oedran cyfrifoldeb troseddol yn codi;
- datblygu dulliau eraill o ddelio â throseddwyr ifanc i osgoi eu hanfon i'r ddalfa.

## Gwella profiadau plant Cymru mewn sefydliadau diogel

35. Er i ni ddweud wrth Lywodraeth Cymru i sicrhau bod dulliau eraill ar gael o ddelio â phlant a phobl ifanc Cymru sy'n troseddu i osgoi eu hanfon i'r ddalfa, rydym yn sylweddoli y bydd yn rhaid, ar adegau, anfon rhai ohonynt i sefydliad diogel.

### *Pellter o'r cartref*

36. Yn anffodus, nid oes digon o welyau yn sefydliadau diogel Cymru ar gyfer troseddwyr dan 18 oed a throseddwyr ifanc Cymru. Mae hyn yn golygu bod llawer ohonynt yn cael eu hanfon i sefydliadau diogel yn Lloegr.

37. Gall y pellter rhwnt Cymru a Lloegr fod yn anodd i'r plant a'r bobl ifanc, er enghraifft, gan y gall ei gwneud yn anoddach iddynt gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd. Dywedodd un troseddwr ifanc wrthym iddo ofyn i'w fam beidio â dod i'w weld oherwydd bod angen iddi deithio mor bell i wneud hyn ac roedd mor anodd iddi deithio i'r carchar ar drafnidiaeth gyhoeddus.

38. Yn ystod ein hymweliad, clywsom fod rhai pobl ifanc o Gymru sy'n cael eu hanfon i sefydliadau yn Lloegr yn aros yn hirach am ofal ysbyty na phobl ifanc o Loegr. Y rheswm dros hyn yw bod gan Gymru a Lloegr systemau gwahanol ar gyfer trefnu, a thalu am ofal ysbyty.

39. Gan hynny, rydym wedi argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau eraill i wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw yn y ddalfa'n cael galwadau ffôn rhad er mwyn

iddynt fedru cadw cysylltiad â'u teuluoedd. Rydym hefyd wedi argymell eu bod yn cymryd camau i wneud yn siŵr nad yw'n anoddach i droseddwyr ifanc Cymru gael triniaeth feddygol oherwydd y gwahaniaeth yn y modd y mae Cymru a Lloegr yn trefnu ac yn talu am ofal ysbyty.

***Pa mor addas yw Sefydliadau Troseddwyr Ifanc?***

40. Dywedodd llawer o bobl hefyd nad oeddynt yn teimlo bod Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yn addas i blant a phobl ifanc.

41. Gan hynny, rydym wedi argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu pa mor addas yw Sefydliadau Troseddwyr Ifanc gan ddatblygu rhagor o leoliadau mewn Cartrefi Plant Diogel yng Nghymru.

***Gofal Iechyd Meddwl***

42. Roedd llawer o'r bobl y buom yn siarad â nhw'n poeni nad oedd y gwasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc sy'n troseddu yn eu cynorthwyo nac yn diwallu eu hanghenion. Rydym o'r farn bod yn rhaid rhoi sylw haeddiannol i'r gwasanaethau iechyd meddwl. Nid yw'n ddigon da anfon pobl ifanc i sefydliadau diogel heb ymdrin â'u hanghenion iechyd meddwl. Gan hynny, rydym wedi argymell bod Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

***Addysg a Hyfforddiant***

43. Roedd llawer o'r bobl y buom yn siarad â nhw'n teimlo bod addysg a hyfforddiant yn bwysig iawn yn yr ymdrech i atal plant a phobl ifanc rhag troseddu eto yn y dyfodol. Roeddynt yn teimlo y gallai addysg a hyfforddiant eu helpu i gyd-dynnu'n well ag eraill a'u helpu i gael gwaith.

44. Teimlent hefyd ei bod yn anodd darparu addysg a hyfforddiant da oherwydd bod llawer o blant a phobl ifanc yn cael dedfryd fer ac yn symud o'r naill sefydliad i'r llall yn aml. Rydym wedi dweud wrth Lywodraeth Cymru fod angen iddi wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel yn cael yr un cyfleoedd â phlant eraill o ran addysg a hyfforddiant.

45. Clywsom hefyd fod gan lawer o blant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel anawsterau iaith, lleferydd a chyfathrebu.

Dywedodd Coleg Brenhinol Therapyddion Iaith a Lleferydd fod angen mynd i'r afael â'r problemau hyn oherwydd:

> "The boys say, 'We just keep saying "yes" to everything. We don't really understand what's going on and what's being said to us."

46. Gan hynny, rydym wedi dweud wrth Lywodraeth Cymru y dylai ddarganfod rhagor am therapi iaith a lleferydd i droseddwyr ifanc i'w helpu i reoli anawsterau lleferydd ac iaith ac i gyfathrebu'n well.

***Hyfforddi staff***

47. Clywsom hefyd ei bod yn bwysig bod staff mewn sefydliadau diogel yn cael hyfforddiant o safon, ac rydym wedi dweud wrth Lywodraeth Cymru fod angen iddi wneud yn siŵr bod hyn yn digwydd.

## Gadael sefydliadau diogel

48. Dywedodd llawer o bobl y buom yn siarad â nhw fod angen i staff mewn sefydliadau diogel wybod a oedd eu gwaith yn helpu i atal plant a phobl ifanc rhag troseddu eto.

49. Rydym wedi dweud wrth Lywodraeth Cymru fod angen gwneud rhagor o waith i roi gwybod i stasff sefydliadau diogel am gynnydd a llwyddiant pobl ifanc wedi iddynt adael y System Cyfiawnder Ieuenctid.

50. Clywsom hefyd fod angen i'r bobl sy'n ceisio atal plant a phobl ifanc rhag troseddu eto wedi iddynt adael sefydliadau diogel gyfathrebu'n well â'i gilydd. Pan aethom i ymweld â sefydliadau diogel yn Lloegr, gwelsom nad oedd y staff yn aml yn gwybod am y gwasanaethau sydd ar gael yng Nghymru a allai helpu plant a phobl ifanc sy'n gadael y sefydliadau (fel Gyrfa Cymru er enghraifft).

51. Rydym wedi awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn penodi rhywun mewn sefydliadau diogel yn Lloegr a fyddai'n gweithio gyda throseddwyr ifanc o Gymru i'w helpu i'w paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau. Rydym wedi awgrymu hefyd ei bod yn rhoi canllawiau i awdurdodau lleol, i'w helpu i gydweithio'n well, i wneud yn siwr bod plant a phobl ifanc sy'n gadael sefydliadau diogel yn cael help i gael tai, addysg a hyfforddiant addas.

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru wedi'u rhestru isod, ynghyd â rhif y dudalen yn y prif adroddiad:

**Argymhelliad 1.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ceisio datganoli'r cyfrifoldeb am sefydliadau diogel ar gyfer pobl dan 18, a bod Llywodraeth Cymru yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn wrth adolygu a ddylid datganoli'r cyfrifoldeb am y system cyfiawnder ieuenctid i Weinidogion Cymru. **Tudalen 38**

**Argymhelliad 2.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymhle y gellid gwella pethau eto i gynorthwyo asiantaethau i adnabod pobl ifanc y mae perygl iddynt droseddu yn y dyfodol, yn unol â'r agenda ataliol. **Tudalen 41**

**Argymhelliad 3.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar ffyrdd o herio'r delweddau yn y cyfryngau a'r darlun sydd gan y cyhoedd o blant a phobl ifanc er mwyn creu amgylchedd lle ceir 'ffocws positif ar gyflawniad cyffredinol ac ar yr hyn sydd gan bobl ifanc i'w gyfrannu' (Ymestyn Hawliau, 2004). **Tudalen 44**

**Argymhelliad 4.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, awdurdodau lleol a Dedfrydwyr i adolygu dedfrydau cadw dan glo, er mwyn sefydlu na ddylid ond eu defnyddio o dan amgylchiadau priodol, yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r egwyddorion a geir yn Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan. **Tudalen 47**

**Argymhelliad 5.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gwasanaeth Llysoedd EM i sicrhau nad oes yr un plentyn neu berson ifanc o Gymru'n mynd drwy'r llys oedolion, yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a bod pob plentyn a pherson ifanc a ddaw gerbron y llys yn cael ei dreialu gan ynadon ieuenctid a'r rheini wedi'u hyfforddi'n drwyadl i ymdrin â phobl ifanc. **Tudalen 48**

**Argymhelliad 6.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, weithio gyda'r timau troseddau ieuenctid i sicrhau bod pobl ifanc yn cydymffurfio'n well â gofynion goruchwyliaeth - y rheini sydd o dan ddedfryd gymunedol neu'r rheini sy'n cael eu rhyddhau ar ôl cyfnod dan glo, gan gynorthwyo i leihau nifer y plant a'r bobl ifanc o Gymru a gedwir dan glo a sicrhau bod y ddedfryd honno'n cael ei defnyddio ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol yn unig. **Tudalen 50**

**Argymhelliad 7.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad o'r llety mechnïaeth sydd ar gael ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru ac o addasrwydd y llety hwnnw, gyda'r nod o leihau nifer y troseddwyr ifanc sy'n cael eu cadw dan glo ar remand oherwydd nad oes llety addas ar gael. **Tudalen 51**

**Argymhelliad 8.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru drafod â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid sut y gellid defnyddio mwy ar gyfleusterau cynadledda fideo ar gyfer ymddangos yn y llys. Rhagwelwn y byddai hyn yn golygu bod llai o angen i blant a phobl ifanc deithio ymhell i'r llys, a hynny gydag oedolion sy'n droseddwyr. **Tudalen 52**

**Argymhelliad 9.** Credwn ei bod yn briodol i Lywodraeth Cymru ystyried y potensial ar gyfer codi oedran cyfrifoldeb troseddol, wrth iddi adolygu'r potensial ar gyfer datganoli'r cyfrifoldeb am gyfiawnder ieuenctid i Weinidogion Cymru. Rhagwelwn y byddai hyn yn digwydd cyn i Lywodraeth Cymru gychwyn ar unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â hyn. **Tudalen 53**

**Argymhelliad 10.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac awdurdodau lleol i ddatblygu dulliau eraill addas ac effeithiol ar gyfer troseddwyr dan 18 yn hytrach na'u cadw dan glo, a bod hynny'n cynnwys gwerthuso rhaglenni o'r fath yn drwyadl. **Tudalen 58**

**Argymhelliad 11.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cadw gwell cysylltiad â'u teulu a'u gofalwyr drwy ofalu ei bod yn haws iddynt gael gafael ar lein ffôn fforddiadwy yn ystod eu cyfnod dan glo. **Tudalen 65**

**Argymhelliad 12.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru ddal i drafod â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, gyda golwg ar alluogi datblygu lleoliadau newydd mewn sefydliadau diogel yng Nghymru, gan ddefnyddio uned ddiogel Hillside yn fodel, a chan gynnwys datblygu darpariaeth mewn lleoliad priodol yn y gogledd.
**Tudalen 70**

**Argymhelliad 13.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr i adolygu pa mor addas yw Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ar gyfer cadw troseddwyr dan 18 o Gymru, yn unol â Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan.
**Tudalen 72**

**Argymhelliad 14.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda byrddau lleol diogelu plant awdurdodau lleol, a chyda Thimau Integredig Cymorth i Deuluoedd i gyflwyno gwelliannau ymarferol i'r drefn cynllunio gofal ac i wella gwaith amlddisgyblaeth yng nghyswllt

troseddwyr dan 18. Mae angen i fyrddau lleol diogelu plant, gan weithio gyda thimau troseddau ieuenctid, a darparwyr sefydliadau diogel, gael polisïau a gweithdrefnau clir, ar gyfer asesu a rheoli'r bobl ifanc hynny sydd, o bosibl, yn agored i niwed, o ran niweidio'u hunain, cyflawni hunanladdiad neu niweidio eraill. **Tudalen 77**

**Argymhelliad 15.** Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n cymryd camau i sicrhau nad oes oedi wrth i droseddwyr dan 18 o Gymru geisio cael gafael ar driniaeth oherwydd gwahanol drefniadau comisiynu'r GIG yng Nghymru ac yn Lloegr. **Tudalen 79**

**Argymhelliad 16.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru warantu'n gyhoeddus y bydd cymorth haen 2 a 3 Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ar gael i bob plentyn mewn sefydliad diogel. **Tudalen 83**

**Argymhelliad 17.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru drafod ag awdurdodau lleol er mwyn galluogi cysondeb o ran cymorth nyrsys seiciatrig iechyd meddwl ar gyfer Timau Troseddau Ieuenctid. Dylid ystyried hefyd sicrhau bod pobl ifanc sy'n ymadael â sefydliad diogel ac nad oes cysylltiad rhyngddynt â'r Timau Troseddau Ieuenctid, yn gallu cael gafael ar gymorth iechyd meddwl. **Tudalen 83**

**Argymhelliad 18.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr holl blant a'r bobl ifanc o Gymru sydd dan glo yn gallu manteisio ar yr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, yn yr un modd â phob plentyn neu berson ifanc arall yng Nghymru. Er mwyn gofalu bod hyn yn digwydd, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau strategol ar gyfer awdurdodau lleol i wneud yn siŵr eu bod yn gwneud rhagor i sicrhau addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth amser llawn i blant a phobl ifanc a ddedfrydir i gyfnod dan glo. **Tudalen 92**

**Argymhelliad 19.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr holl blant a'r bobl ifanc o Gymru sydd dan glo'n cael yr un hawl i gael addysg, hyfforddiant a chyflogaeth â'r rheini sydd ar y tu allan, gan sicrhau bod safon addysgol pawb sy'n cael ei roi dan glo'n cael ei hasesu ac yn cael sylw. Er mwyn sicrhau hyn, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid perthnasol i sicrhau bod pob person ifanc sydd dan glo'n cael cynllun dysgu unigol a bod hwn yn cael ei fonitro'n rheolaidd yn unol â gofynion Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan **Tudalen 95**

**Argymhelliad 20.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru drafod gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, gyda'r nod o alluogi adolygiad o'r ddarpariaeth eiriolaeth ac o effeithiolrwydd y trefniadau ar ei chyfer mewn sefydliadau diogel i bobl dan 18. **Tudalen 97**

**Argymhelliad 21.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru alluogi gwaith peilot yng Nghymru ynglŷn â manteision posibl therapi iaith a

lleferydd i droseddwyr dan 18 - pan fyddant dan glo ac wrth eu rhyddhau. **Tudalen 101**

**Argymhelliad 22.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gysylltu â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i sicrhau hyfforddiant digonol i bob gweithiwr proffesiynol a phob aelod o'r staff ategol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel, gan sicrhau bod y gwasanaethau'n canolbwyntio ar y plentyn ac yn cael eu teilwra i'w hanghenion unigol. **Tudalen 108**

**Argymhelliad 23.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi hwyluso rhannu arferion da mewn sefydliadau diogel, drwy gyfrwng seminar blynyddol a gynhelir gan Estyn. **Tudalen 108**

**Argymhelliad 24.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gysylltu â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i adolygu'r system targedau, y dangosyddion perfformiad a'r dulliau a ddefnyddir i fesur aildroseddu ar hyn o bryd er mwyn cynhyrchu set data gadarn o ganlyniadau llwyddiannus. Teimlwn y dylai hyn gynnwys dulliau mesur 'meddal' ar gyfer y grŵp hwn sy'n cydnabod y pellter y maent wedi'i deithio, nid dim ond mewnbynnau (e.e. nifer yr oriau y mynychir). Argymhellwn hefyd y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i roi canllawiau i awdurdodau lleol, i ddarparwyr sefydliadau diogel ac i bartneriaid perthnasol er mwyn egluro pa ddata y dylent fod yn eu casglu a'u rhannu yng nghyswllt troseddwyr dan 18 ac i sicrhau bod y rhain yn cael eu diweddaru'n rheolaidd a'u storio'n briodol. **Tudalen 111**

**Argymhelliad 25.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru drafod gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Llywodraeth y Deyrnas Unedig gyda golwg ar gael swyddog adsefydlu cyswllt yn Lloegr mewn sefydliadau i weithio gyda throseddwyr dan 18 o Gymru yn ystod eu dedfryd a'u paratoi ar gyfer eu rhyddhau. **Tudalen 113**

**Argymhelliad 26.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol, gan sicrhau bod Timau Troseddau Ieuenctid ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru'n cydweithio mor effeithiol ag y bo modd i ddarparu gwasanaeth integredig ar gyfer pobl pan gânt eu rhyddhau ar ôl cyfnod dan glo. Credwn y dylai Timau Troseddau Ieuenctid adrodd yn uniongyrchol i brif weithredwr awdurdod, ac y dylai yntau fod yn gyfrifol am sicrhau bod y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn ei awdurdod lleol yn cael eu cydlynu'n effeithiol yn unol â Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan. **Tudalen 116**

**Argymhelliad 27.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau lleol er mwyn i wasanaethau tai fod yn bartner statudol ar fwrdd rheoli'r timau troseddau ieuenctid. **Tudalen 119**

**Argymhelliad 28.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gydag awdurdodau lleol, cyrff cyflogaeth a chyrff y trydydd sector, ystyried sut y gellid cynyddu cyfleoedd i bobl ifanc sy'n cwblhau cyfnod dan glo gael gwaith. **Tudalen 121**

## Rhestr o’r termau sy’n cael eu defnyddio yn yr adroddiad hwn

**Eiriolwr**: Oedolyn sy’n cynrychioli barn a dymuniadau plant neu bobl ifanc ac sy’n eu helpu i wneud i rywbeth ddigwydd, newid neu stopio.

**Asiantaeth**: Corff cyhoeddus sy’n darparu gwasanaethau’r llywodraeth, yn unol â pholisïau’r llywodraeth, ond nid yw’n cael ei rheoli gan y llywodraeth o ddydd i ddydd. Er enghraifft, asiantaeth yw Canolfan Byd Gwaith. Mae gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru asiantaethau.

**Strategaeth Troseddau Ieuenctid Cymru Gyfan**: Dogfen a ddywedodd beth y byddai Llywodraeth Cymru yn ei wneud i atal plant a phobl ifanc rhag troseddu.

**Llety mechnïaeth**: cartrefi i droseddwyr sy’n cael eu rhyddhau cyn diwedd eu dedfryd, neu i bobl sydd ar fechnïaeth ac yn aros i sefyll eu prawf (ac nad oes ganddynt gartref eu hunain).

**Oed cyfrifoldeb troseddol**: oed plentyn neu berson ifanc pan gredir ei fod yn ddigon hen i ddeall ystyr yr hyn y mae’n ei wneud pan fydd yn troseddu, a’r oed y gellir ei gosbi am droseddu. Yng Nghymru a Lloegr, 10 oed yw oed cyfrifoldeb troseddol.

**Datganoli:** Gwneud Llywodraeth Cymru, yn hytrach na Llywodraeth y DU, yn gyfrifol am rywbeth.

**Estyn**: Asiantaeth sy’n gyfrifol am arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru .

**Tystiolaeth**: Pethau y bydd gwahanol bobl yn eu dweud neu’n eu hysgrifennu i geisio disgrifio’r hyn sy’n digwydd.

**Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi**: Mae Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi’n gyfrifol am weinyddu’r llysoedd sifil, y llysoedd teulu a’r llysoedd troseddol yng Nghymru a Lloegr.

**Troseddwyr dan 18 oed**: Plant neu bobl ifanc dan 18 oed sy’n cael eu cyhuddo o droseddu.

**Awdurdodau lleol**: Mae 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae pob un yn gyfrifol am wasanaethau llywodraeth leol yn eu hardal, gan gynnwys addysg, gwaith cymdeithasol a gwasanaethau ffyrdd.

**Argymhelliad.** Awgrym cryf bod rhywbeth yn cael ei wneud.

**Sefydliadau diogel**: Gwahanol leoedd i gadw plant neu bobl ifanc yn y ddalfa os ydynt wedi troseddu'n ddifrifol, ac wedi cael eu hanfon i sefydliad diogel fel cosb.

**Dedfrydwyr:** Y bobl sy'n penderfynu a yw plentyn neu berson ifanc wedi troseddu, a sut y dylid eu cosbi.

**Llywodraeth Cymru**: Mae gan Lywodraeth Cymru y pŵer i ddeddfu ac i benderfynu ar rai pynciau yng Nghymru (er enghraifft - iechyd, addysg a'r amgylchedd). Mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys y Prif Weinidog, Carwyn Jones, a Gweinidogion Cymru, ac mae wedi'i lleoli yng Nghymru.

**Gweinidogion Cymru**: Y gwahanol wleidyddion sy'n cael eu hethol ac sy'n ffurfio Llywodraeth Cymru.

**Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid**: Yn goruchwylio'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr . Mae'n ceisio atal plant a phobl ifanc rhag troseddu ac, os ydynt yn cael eu cadw mewn sefydliad diogel, mae'n ceisio gwneud yn siŵr bod y sefydliad yn ddiogel a'i fod yn helpu plant rhag troseddu yn y dyfodol.

**System Cyfiawnder Ieuenctid**: Y system (gan gynnwys yr heddlu, llysoedd ieuenctid etc) sy'n ymateb i blant a phobl ifanc pan fyddant yn troseddu.

**Troseddwyr Ifanc**: Pobl ifanc rhwng 18 a 20 oed sy'n cael eu cyhuddo o droseddu.

**Timau Troseddau Ieuenctid**: Mae Tîm Troseddau Ieuenctid ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr. Maent yn cynnwys cynrychiolwyr o'r heddlu, y Gwasanaeth Prawf, y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaethau iechyd, addysg, camddefnyddio alcohol a chyffuriau a thai. Maent yn nodi anghenion plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu, unrhyw broblemau penodol a arweiniodd at y drosedd, ac yn penderfynu a ydynt yn fygythiad i bobl eraill. Mae hyn yn galluogi'r Timau i benderfynu ar raglenni addas i ddiwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc er mwyn ei atal rhag troseddu eto yn y dyfodol.